# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

Amser: 11.30 - 12.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Haidee James,** Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(11.15 - 11.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(11.30)

## 2 Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC: sesiwn dystiolaeth gyda HSBC UK

(11.30 - 12.15) (Tudalennau 1 - 8)

- Jose Carvalho, Pennaeth Cyfoeth a Bancio Personol, HSBC UK

Dogfennau atodol:

- Briff ymchwil: Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC

## 3 Papurau i'w nodi

(12.15)

### 3.1 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

(Tudalennau 9 - 12)

**Dogfennau atodol:**

- Ymateb Comisiwn y Senedd: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd - Tachwedd 2023
- Ymateb Dirprwyaeth y Senedd i Gynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA): Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd - Tachwedd 2023

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(12.15)

## 5 Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC: trafod y dystiolaeth

(12.15 - 12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Eitem 3.1

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

23 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd,

Ymateb i Adroddiad Pwyllgor — Cysylltiadau Cymru ac Iwerddon

Diolch am gopi o'ch adroddiad diweddar. Mae Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA) yn elfen bwysig o waith rhyng-seneddol y Senedd, sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan Aelodau o bob plaid. Fel Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, rwy'n gefnogol i'r gwaith hwn i'r perwyl bod yr Aelodau sy'n cymryd rhan, ac ymhellach, y Senedd gyfan, yn elwa o'r strwythur gwleidyddol hwn.

Rwy'n nodi argymhelliad rhif 15, sy'n ymwneud â gwaith y Senedd, ac yn gofyn am farn gan y Comisiwn ar y cynnydd posibl yn nifer y pwyllgorau BIPA, ystyriaethau ar gynyddu nifer cynrychiolwyr y Senedd a llenwi'r sedd wag.

Er fy mod yn dymuno cefnogi gweithgarwch BIPA cymaint â phosibl, materion i'r Senedd ystyried yn y pen draw, yw elfennau megis strwythurau BIPA, gan gynnwys unrhyw gynnydd ym maint dirprwyaeth y Senedd. Yn yr un modd, gwneir enwebiadau i'r ddirprwyaeth BIPA gan y grwpiau gwleidyddol ac, yn unol â rheolau BIPA, maent yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Senedd. Rwy'n ymwybodol bod swyddogion y Comisiwn wedi tynnu sylw cynrychiolwyr BIPA enwebedig y Senedd at yr argymhelliad penodol, yn ogystal â'r materion ehangach a godwyd yn yr adroddiad. Tybiaf y byddant yn dymuno ymateb eu hunain i'r Pwyllgor.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Mae’r Comisiwn yn darparu adnoddau uniongyrchol i BIPA drwy cefnogi cynrychiolaeth y Senedd yng nghyfarfodydd llawn BIPA a phresenoldeb ar is-bwyllgorau BIPA. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys ariannu costau teithio Aelodau, a darparu ymchwil a chymorth gweinyddol i'r Aelodau sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau BIPA. O'r herwydd, mae BIPA yn elfen allweddol wrth gyflawni Fframwaith Rhyngwladol Comisiwn y Senedd, sy'n darparu atebolrwydd, eglurder a chyfeiriad i'r gweithgaredd seneddol rhyngwladol a adlewyrchir gan Gomisiwn y Senedd. Mae'n sylfaen ar gyfer trefnu a blaenoriaethau ar gyfer y cymorth a ddarperir. Mae un o egwyddorion y fframwaith yn nodi:

> *“y bydd ein gweithgareddau rhyngwladol:*
>
> *1. Yn canolbwyntio ar fusnes y Senedd, gan alluogi'r Senedd i gyflawni ei swyddogaeth graidd, sef cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, drwy wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth, syniadau a phrofiad;”*

Fel y mae'r adroddiad hwn yn amlygu, BIPA yw un fforwm ar gyfer ymgysylltiad dwyochrog rhwng Cymru ac Iwerddon, ond yn wir mae dulliau eraill y gall y Senedd a'i strwythurau gwleidyddol eu gweithredu er mwyn hyrwyddo cysylltiadau dwyochrog, ac mae Fframwaith Rhyngwladol y Comisiwn yn hwyluso'r gwaith hwnnw.

Gall unrhyw gynnydd yng ngweithgareddau BIPA arwain at oblygiadau adnoddau. Gan gydnabod pwysigrwydd BIPA, fe fydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw oblygiadau a ddaw o unrhyw trafodaethau perthnasol fel rhan o'i gynllunio busnes a chyllideb, mewn ymgynghoriad ag Aelodau perthnasol, yng ngoleuni'r ymrwymiadau yn y Fframwaith Rhyngwladol.

Yn gywir

Elin Jones

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

23 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd,

**Ymateb i Adroddiad ac Amgymhelliad y Pwyllgor — Cysylltiadau Cymru-Iwerddon**

Mae Dirprwyaeth BIPA y Senedd yn croesawu ystyriaeth y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA) fel rhan o'r ymchwiliad hwn i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon a'r cydnabyddiaeth o'i rôl bwysig wrth hwyluso'r perthnasoedd hyn. Mae'r ddirprwyaeth hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod gwaith BIPA â'r Pwyllgor.

Bydd y ddirprwyaeth yn ystyried ffyrdd y gellir bwydo gwaith BIPA yn ôl i Fusnes y Senedd, gan gynnwys trwy bwyllgorau. Mae hon yn drafodaeth cyfredol oherwydd gwaith Pwyllgor Llywio BIPA ar gyfeiriad strategol y Cynulliad, a wnaeth awgrymiadau ynghylch adrodd yn flynyddol i ddeddfwrfeydd ar waith pwyllgorau er mwyn llywio dadleuon, a chyfathrebu adroddiadau Pwyllgor BIPA i bwyllgorau priodol ym mhob deddfwrfa. Rydym yn rhagweld y bydd y ddeialog hon yn parhau yn ein Cyfarfod Llawn nesaf, yn ogystal â thrafodaethau ynghylch cynyddu neu adolygu mandadau Pwyllgorau BIPA.

Rydym yn ymwybodol, wrth weithredu Fframwaith Rhyngwladol y Comisiwn, bod swyddogion yn ceisio cydlynu gweithgarwch rhyngwladol, gan gynnwys BIPA, mewn ffordd sy'n cyd-fynd â Busnes y Senedd. Mae'r ddirprwyaeth BIPA yn ymwybodol o'i rôl o ran hwyluso'r cydlynu o adnoddau yn effeithiol i gefnogi anghenion y Senedd a nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn.

Bydd Dirprwyaeth y Senedd yn myfyrio ar argymhelliad y Pwyllgor ynghylch llenwi'r sedd wag, ac yn ystyried, yng ngoleuni trafodaethau BIPA parhaus, oblygiadau unrhyw newidiadau arfaethedig i Bwyllgorau BIPA ar gyfer y ddirprwyaeth ac aelodaeth y pwyllgorau.

Yn gywir,

David Rees AS, Dirprwy Lywydd

Heledd Fychan AS

Sarah Murphy AS

Darren Millar AS

Dirprwyaeth BIPA y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.